WLGA • CLILC

CYDWEITHIO YN ERBYN troseddau bywyd gwyllt
PARTNERSHIP FOR ACTION AGAINST wildlife crime

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Hyrwyddwyr Bioamrywiaeth

Beth yw fy rôl?
(amrywiol a gwahanol iawn, yn dibynnu ar yr amgylchiadau)

- Paratoi arweinyddiaeth ac ysbrydoliaeth a chefnogi'r rheini sydd â'r adnoddau i atal bioamrywiaeth rhag diflannu, gan sicrhau ei fod yn ffynnu yn fy ardal leol.
- Cefnogi ein cydlynydd CGBLl a chynorthwyo ein hecolegwyr mewn unrhyw ffordd y gallaf.
- Bod yn gydwybod i'm sefydliad a'i gynorthwyo i weithredu'n gyfreithlon dan Ddyletswydd Bioamrywiaeth Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (NERC) 2006, y Rheoliadau Cynefinoedd a deddfwriaethau perthnasol eraill yn ymwneud â bioamrywiaeth.

Sut y gallaf ychwanegu gwerth?
Dyma rai syniadau.....

1. Hyrwyddwr Bioamrywiaeth fel aelod etholedig. Gan ddeillio o berthynas dda rhwng yr Hyrwyddwr Bioamrywiaeth a'r tîm bioamrywiaeth (Ecolegydd/Cydlynydd Bioamrywiaeth) dylai'r Hyrwyddwr fod yn barod i grybwyll materion yn ymwneud â bioamrywiaeth pan gaiff wybod amdanynt. Gall ef/hi ddefnyddio'i safle o fewn y sefydliad i sicrhau na fydd materion bioamrywiaeth yn cael eu hesgeuluso neu'n cael eu hepgor o adroddiadau, gan sicrhau bod yr holl faterion yn cael eu trafod yn deg ac yn agored.
   Gall yr Hyrwyddwyr siarad yn anffurfiol ag aelodau eraill o'r Cyngor (ar ddechrau neu ddiwedd cyfarfodydd ayyb), neu'n ffurfiol (mewn trafodaethau neu mewn gweithdai), gan sicrhau eu bod yn ymrwymo i fioamrywiaeth a chan hyrwyddo'u prosiect 'personol' o fewn eu ward. Gall y Cydlynydd CGBLl baratoi map neu restr o weithgareddau bioamrywiaeth ym mhob ward er mwyn rhoi gwybod i'r Hyrwyddwr amdanynt.
   Gall yr Hyrwyddwr sicrhau bod Bioamrywiaeth ar agendâu cyfarfodydd e.e. cyfarfodydd archwilio, gan sicrhau hefyd y ceir trafodaeth briodol ar faterion lle mae'r penderfyniad yn debygol o effeithio ar fioamrywiaeth. Gall Hyrwyddwyr ysgogi newid yn 'niwylliant' awdurdodau er mwyn sicrhau bod Gwleidyddion ac Uwch Swyddogion yn hollol ymwybodol o bwysigrwydd Bioamrywiaeth a'r ddyletswydd bioamrywiaeth a geir yn NERC.
   Canlyniad: Cynyddu'r ymrwymiad gwleidyddol a deall sut mae gweithredu ym maes bioamrywiaeth yn cyfrannu tuag at nifer o agendâu.
2. Papur i'r Bwrdd o Uwch Reolwyr a /neu i'r Cabinet.
   Dylai'r Cydlynydd CGBLl baratoi papur ar ddyletswydd NERC, gan awgrymu sut y gall pob adran gyfrannu at yr amcanion a gaiff eu pennu yn nogfen CELIL 'Cynyddu'r Momentwm'.
   Canlyniad: Ymrwymiad i gyflawni targedau ac amserlenni, gan adrodd ar hyn. Bydd y cydlynydd neu'r ecolegydd CGBLl yn gweithio ar y manylion gydag adrannau allweddol.
3. Llunio papur ar gyfer y Tîm Cyllid, y Bwrdd o Uwch Reolwyr neu'r Cabinet yn sôn am ddyletswydd bioamrywiaeth NERC: tynnu sylw at yr adnoddau sydd eu hangen a'r ffaith fod rhywfaint o arian ar gael i ariannu ecolegydd (dan Asesiad Priodol Cynllun Datblygu Lleol) a phrosiectau CGBLl (CCGC). O bosibl, crybwyll y risgiau (e.e. adolygiad barnwrol a/neu dorri rheolau'r Comisiwn Ewropeaidd; gweler y gwaith da a wnaed gan Rwydwaith Arena ar gyfer busnesau) a gofyn am gytundeb i gynyddu a/neu i gael mwy o adnoddau parhaol.
   Efallai y bydd yr Hyrwyddwr yn dymuno cynnal cyfarfod ymlaen llaw gyda'r Prif Gyfrifydd, y Cyfarwyddwr Cyllid neu Aelod o'r Cabinet a chanddo Gyfrifoldebau Cyllid, er mwyn eu rhybuddio ynghylch y risg gysylltiedig, a'r gost gymharol isel o leihau'r risg dan sylw.

Canlyniad: Mwy o adnoddau (rhai ariannol a rhai o fath arall)

4. Rhoi cafeat ym mhob un o bapurau'r Cyngor (nid yw hyn wedi cael ei roi ar brawf eto, hyd y gwyddom). Bydd blwch cydymffurfio â bioamrywiaeth yn cael ei ychwanegu at bob un o bapurau'r Cabinet a phapurau'r Cyngor. Ni chaiff yr un papur ei anfon at y Tîm o Uwch Reolwyr na'r Cabinet heb i'r goblygiadau bioamrywiaeth gael eu hystyried a/neu heb i 'elfen' yn ymwneud â bioamrywiaeth gael ei chynnwys yn y penderfyniad hwnnw.
   Gall yr Hyrwyddwr sicrhau bod bioamrywiaeth yn rhan o'r dulliau gwerthuso cynaliadwyedd lleol a'u bod yn cael eu defnyddio i sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei ystyried mewn modd priodol wrth wneud penderfyniadau.
   Canlyniad: Dyma'r peth agosaf at gydymffurfio'n uniongyrchol â'r ddyletswydd. Mae bioamrywiaeth yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.
5. Dylai'r Hyrwyddwr Bioamrywiaeth ddewis a dethol grŵp bychan (ond pwerus) o aelodau i weithredu fel Tîm Bioamrywiaeth er mwyn cefnogi'r dasg o weithredu er budd bioamrywiaeth.
   Canlyniad: Rhannu'r gwaith rhwng mwy o chwaraewyr er mwyn rhoi mwy o gefnogaeth i ecolegwyr a Chydlynwyr CGBLl.
6. Dylai'r Hyrwyddwr a'r Cydlynydd CGBLl gysylltu â'r Tîm Hyfforddi a Datblygu er mwyn cynnwys y neges am ddyletswydd NERC (gan gynnwys gweithgareddau penodol yn ymwneud â bioamrywiaeth, deddfwriaethau perthnasol ayyb) yn holl ddigwyddiadau hyfforddi a datblygu'r awdurdodau lleol.
   Dylai'r Hyrwyddwr Bioamrywiaeth ganfod pa hyfforddiant sy'n ofynnol er mwyn ei gefnogi yn ei rôl, e.e. hyfforddiant Canolfan Gofnodi Lleol Cofnod / hyfforddiant CGBLl a gynhelir yng Ngogledd Cymru.
   Canlyniad: Cynnydd mewn dealltwriaeth, gwybodaeth ac ymrwymiad ymysg swyddogion ac aelodau; cynnydd mewn adnoddau (heb fod yn rhai ariannol)
7. Gall yr Hyrwyddwr weithio â'r Tîm Bioamrywiaeth i lunio Datganiad Safbwynt ar fioamrywiaeth er mwyn rhoi cefnogaeth polisi i'r rôl.
   Canlyniad: Mae gan bob aelod o'r Cyngor a phob gweithiwr ddogfen gyfeiriol i'w galluogi i gael gwell dealltwriaeth o sut i ystyried yr effaith a geir ar fioamrywiaeth o fewn eu maes gwaith.
8. Cyfathrebu: Mae gan yr Hyrwyddwr rôl allweddol o ran codi ymwybyddiaeth ynghylch bioamrywiaeth ymhlith y cyhoedd. Gellir cyflawni hyn trwy fynychu digwyddiadau, trwy ddangos diddordeb personol mewn bioamrywiaeth, a thrwy gynnwys bioamrywiaeth mewn areithiau a maniffestos ayyb.
   Canlyniad: Gwell ymwybyddiaeth o fioamrywiaeth a datblygiad bioamrywiaeth fel pwnc gwleidyddol – rhywbeth a fydd yn denu pleidleisiau!
9. Gwnewch Ymrwymiad Cyhoeddus
   Cofrestrwch eich sefydliad ar gyfer her Countdown 2010
   http://www.countdown2010.net/?id=93
   Canlyniad: Bydd y cyhoedd a'ch gweithwyr yn gwybod eich bod o ddifrif ynglŷn â gwneud gwahaniaeth i fioamrywiaeth.

YR HYN A FYDD YN ARWAIN AT LWYDDIANT FYDD DEWIS NIFER FACH O DDULLIAU (WEDI EU CODI NEU EU HADDASU O'R RHESTR UCHOD) SY'N GWEITHIO I CHI, I'CH CYDLYNYDD CGBLI AC I'R ECOLEGWYR YN EICH AWDURDOD.

POB LWC!

WLGA • CLILC

CYDWEITHIO YN ERBYN troseddau bywyd gwyllt
PARTNERSHIP FOR ACTION AGAINST wildlife crime

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Biodiversity Champions

What is my role?
(very varied and different depending on circumstances)

- To provide leadership and inspiration and empower those with resources to halt the of loss of biodiversity and maximise its gain in my local area.
- To support our LBAP co-ordinator and assist our ecologists in any way I can.
- To be a conscience for my organisation and help it to remain legal under the NERC Act (2006) Biodiversity Duty, Habitats Regulations and other biodiversity related legislation.

How can I add value?
Here are some ideas…….

1. Biodiversity Champion as an elected member; arising from a good relationship between the Biodiversity Champion and the biodiversity team (Ecologist/Biodiversity Co-ordinator) the Champion should be prepared to raise matters relating to biodiversity when advised of their existence. He/she can use their position within the organisation to ensure that biodiversity matters are not overlooked or edited out of reports, and ensure that fair and open debate of all the issues takes place.
   The Champion can talk to other Council members informally (round the edges of meetings, etc) or formally (through head-to-head meetings or a workshop) and secure buy in to biodiversity and championing of their 'personal' project in their ward. The LBAP Coordinator can provide a map or list of biodiversity activities in each ward to inform the Champion.
   The Champion can ensure that biodiversity is on meeting agendas e.g. scrutiny meetings, and that there is proper discussion of issues where a decision is likely to have an impact on biodiversity. Champions can instigate cultural change within authorities to ensure that Politicians and Senior Officers are fully aware of the importance of biodiversity and the NERC Biodiversity Duty.
   Outcome: Increase political 'buy-in' and understanding of how biodiversity action contributes to many agendas.
2. Paper to Senior Management Board and/or Cabinet:
   LBAP Co-ordinator provides paper on NERC Duty suggesting how each department can contribute to goals set out in the ALGE document 'Increasing the Momentum'.
   Outcome: Commitment to deliver against targets and timescale, and report. LBAP Co-ordinator or Ecologist works on details with key departments.
3. Paper to Finance Team, Senior Management Board or Cabinet on NERC Biodiversity Duty: highlighting the minimum resource requirement and the fact that partial funding is available for an Ecologist (under LDP Appropriate Assessment) and LBAP projects (from CCW). Possibly also raising the risk issues (e.g. of judicial review and/or EC infraction; see good work done by Arena Network for businesses) and requesting agreement to increased and/or more permanent resources.
   The Champion may wish to hold a pre-meeting with the Chief Accountant, Director of Finance or Cabinet Member with Finance Responsibilities beforehand, warning of the risk involved and the relatively small cost of reducing this.
   Outcome: Increased (financial or other) resources.
4. Putting a caveat in all Council papers (not yet tried as far as we know). A biodiversity compliance box is added to all Cabinet and Council papers. No paper can go up to Senior Management Team or Cabinet without the biodiversity implications being considered and/or a biodiversity 'element' being built into that decision.
   The Champion can ensure that biodiversity is part of the local sustainability appraisal mechanism and that it is used to ensure that biodiversity is properly considered in the decision making process.

Outcome: This could be as close as you can get to direct compliance with the Duty. Biodiversity is a part of the decision making process.

5. Biodiversity Champion handpicks a small (but powerful) group of members to act as a Biodiversity Team to support delivery of biodiversity action.
   Outcome: Spreads the work between more players to provide Ecologists and LBAP Co-ordinators with increased support.
6. Champion and LBAP Co-ordinator approach Training and Development Team to incorporate NERC Duty message including specific biodiversity activities, related legislation etc into all LA training and development .
   Biodiversity Champion identifies training required to support them in their role e.g. the Cofnod Local Record Centre/LBAP training held in North Wales.
   Outcome: Improved understanding, knowledge and commitment among officials and members; increased (non-financial) resources.
7. The Champion can work with the Biodiversity Team to produce a Position Statement on biodiversity to give policy backing to the role.
   Outcome: All Council members and staff have reference document to enable better understanding of how to consider impacts on biodiversity within their area of work.
8. Communication: The Champion has a key role in raising awareness of biodiversity with the public. This can be achieved by attending events, showing a personal interest in biodiversity and including biodiversity in speeches and in manifestos etc.
   Outcome: Improved awareness of biodiversity and the development of biodiversity as a political issue – a vote winner!
9. Make a Public Commitment.
   Register your organisation for the Countdown 2010 challenge.
   http://www.countdown2010.net/?id=93
   Outcome: Your public and staff will know that you are serious about making a difference to biodiversity.

THE KEY TO SUCCESS IS TO CHOOSE A SMALL NUMBER OF APPROACHES (LIFTED OR ADAPTED FROM THIS LIST ABOVE) THAT WORK FOR YOU, YOUR LBAP CO-ORDINATOR AND ECOLOGISTS IN YOUR AUTHORITY.
GOOD LUCK!